Ymateb
Ymgynghoriad

**Enw:** Sarah Capstick

**Sefydliad:** Safer Communities Network, Welsh Local Government Association

**E-bost:** safercommunities@wlga.gov.uk

**Cyfeiriad:** Local Government House, Drake Walk, Cardiff CF10 4LG

**Cwestiwn 1:**
**A ydych o'r farn bod y ddogfen hon yn crynhoi'r prif faterion y dylid eu hystyried mewn perthynas â'r rhaglen ariannu hon? Amlinellwch unrhyw faterion sydd ar goll yn eich barn chi neu y mae angen rhoi sylw pellach iddynt?**
Ydi, er dylid ystyried cysylltiadau â Diogelwch Cymunedol yn ogystal â chydlyniant cymunedol. Yn enwedig ar gyfer cydlyniant cymunedol, ymgysylltiad, croestoriadedd ac economaidd-gymdeithasol.

**Cwestiwn 2:**
**Ydych chi'n cefnogi'r cynnig ar gyfer rhaglen hirach, 5 mlynedd? Os na, eglurwch eich rhesymau'n gryno.**
Ydi ar yr amod fod hyblygrwydd yn y system un ai trwy ymagwedd consortiwm sefydliad angor neu trwy gomisiwn cynghrair i alluogi prosiectau lleol bychain i ymateb i anghenion penodol gan gymunedau eu hunain. Dylai bod hyblygrwydd hefyd wrth ymateb i'r anghenion wedi'u nodi trwy Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (cynlluniau Lles), Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (Asesiad o Anghenion y Boblogaeth) a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol (Asesiadau Strategol) ar lefel lleol a rhanbarthol.

**Cwestiwn 3:**
**A fyddech yn fodlon bod Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid craidd ar gyfer rhai sefydliadau cydraddoldeb strategol? Os na, eglurwch eich rhesymau'n gryno.**
Oes, ond craidd ochr yn ochr â darpariaeth. Mewn sawl corff statudol yr uchafswm a ganiateir ar gyfer costau craidd yw 10% o gyllid. Mae'r arfer da i ariannu rhai elfennau craidd ac i'r darparwyr allu dangos tystiolaeth o sut y mae'r arian yn cael ei ddefnyddio gan gynnwys rheoli amser a sut y mae hynny'n cael ei ddarparu ac ar ba lefel yn y sefydliad.

**Cwestiwn 4:**
**Ydych chi'n cefnogi parhau â'r gwasanaethau presennol ar gyfer grwpiau penodol? A oes unrhyw wasanaethau eraill y dylid eu cynnwys yn y ddarpariaeth hon yn eich barn chi? Os na, eglurwch eich rhesymau'n gryno.**
Ar yr amod bod yna dystiolaeth yn erbyn DPA a chanlyniadau a bod y ddarpariaeth yn gysylltiedig ag arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth yn yr ardaloedd. Nid oes gwerth mewn gwasanaethau digomisiynu fel Adrodd ar Drosedd Casineb a Chanolfan Gefnogi oni bai fod yna angen amlwg, llywodraethu da ac adrodd yn ôl cyson. Efallai y bydd angen ystyried goblygiadau TUPE fel rhan o'r broses caffael.

**Cwestiwn 5:**
**Beth ddylai'r cydbwysedd fod rhwng gwasanaethau wedi'u caffael, cyllid craidd a phrosiectau a ariennir gan grantiau? Sut fyddech chi'n rhannu'r gyllideb (£1.6miliwn ar hyn o bryd) rhwng y meysydd hyn?**
Uchafswm o 10% ar gyfer cyllid craidd - £160,000.
Yn dibynnu ar y model/modelau comisiynu a ddefnyddir a sut i rannu'r gweddill. Os yn gynghrair gellir defnyddio cymysgedd o gyllid wedi'i chaffael a chyllid grant (uniongyrchol neu anuniongyrchol) o'r gyllideb yn y gynghrair. Os yn sefydliadau consortiwm neu angor yna mae'n bosib y bydd angen ymagwedd wahanol.
Dylai penderfyniadau ar gyllid fod yn seiliedig ar dystiolaeth o'r angen a lle mae'n bosib atal yn ogystal â chefnogi pan fydd argyfwng neu cyn argyfwng.

**Cwestiwn 6:**
**Ydych chi'n cytuno y dylai'r cyllid hwn gyd-fynd â'r am canion a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 Llywodraeth Cymru?**
Ydi, ynghyd ag ystod o gynlluniau gweithredu wedi'u hamlinellu yn y papur ymgynghori. Dylid adeiladu hyblygrwydd i brosesau comisiynu a chaffael ar gyfer y blynyddoedd ar ôl 2024 pan ddylai cynlluniau newydd ddod i rym. Mae'n bosib gwneud hynny'n hawdd trwy sefydliadau angor (consortiwm) neu gomisiynu cynghrair.

**Cwestiwn 7:**
**Ydych chi'n credu y dylid neilltuo rhywfaint o'r cyllid i gefnogi camau gweithredu cydraddoldeb ehangach a chydweithio rhwng sefydliadau cydraddoldeb?**
Ydi, a chanolbwyntio ar anghydraddoldebau croestoriadedd ac economaidd-gymdeithasol. Dylai comisiynu mewn consortiwm neu gynghrair leihau'r risg o ddarparwyr yn gweithio mewn seilos. Hefyd gall y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel gefnogi dod â phawb ynghyd ynghylch elfennau cymunedau mwy diogel yn ei gynulleidfa fwyaf a'i ddosbarthu. Unrhyw gefnogaeth o'r fath yn cynnwys y tîm CLILC ehangach yn ogystal â CGGC a chyrff allweddol eraill.

**Cwestiwn 8:**
**Ydych chi'n cytuno y dylai'r cyllid hwn gyd-fynd â'n cynlluniau cydraddoldeb penodol fel y Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb Rhywiol, Cydraddoldeb Hiliol ac LGBT+?**
Ydi, ond mae angen bod yn ymwybodol o'r agweddau croestoriadedd a'r economaidd-gymdeithasol yn arbennig pan fydd nodweddion amrywiol posib yn gysylltiedig â dinasyddion unigol a rhai cymunedau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol. Ni ddylai fod unrhyw seilos dim ond gwasanaethau a chefnogaeth sy'n gysylltiedig â dinasyddion, gan sicrhau gwell cydlyniant cymunedol, herio stereoteipio, rhagfarn, camddealltwriaeth a chasineb, a datblygu cymunedau sy'n gynhwysol a diogel i bawb.

**Cwestiwn 9:**
**Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai'r canllawiau yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?**
Dim ymateb

**Cwestiwn 10:**
**Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid trefnu neu newid y dull polisi arfaethedig er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu mwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**
Dim ymateb

**Cwestiwn 11:**
**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, ddefnyddiwch y blwch hwn i'w nodi.**
Cydraddoldeb a Chynhwysiant gyda chydlyniant cymunedol yn ddau ran sy'n cyfrannu at gymunedau mwy diogel ac yn sicrhau fod pobl yn teimlo'n ddiogel ac os nad ydyn nhw'n teimlo'n ddiogel eu bod nhw'n ymwybodol o hynny ac yn gallu cael mynediad at gynorthwy-ydd i wella sefyllfa eu hunain neu sefyllfa'r gymuned ehangach. Mae felly'n bwysig yn ein barn ni i ymgorffori a chynnwys Partneriaeth Diogelwch Cymunedol wrth ystyried y cylch gwaith ehangach ar gyfer y maes hwn o waith. Un ai'n annibynnol neu trwy CLILC gall y Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel newydd helpu i adeiladu'r cysylltiadau hyn ac i sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei rannu mewn modd eglur, lleihau dyblygu a galluogi gwasanaethau ategol i gael eu dylunio a'u datblygu.